# Adroddiad Arolygu

**Cylch Chwarae Trelewis**

**Canolfan Gymunedol Trelewis**
**Mackintosh Terrace, Trelewis**
**Treharris**
**CF46 6DA**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

16/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Agored Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Trelewis

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal plant dyddiol<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Chwarae Trelewis |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r sefydliad ailgofrestru ym mis Mawrth 2020. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mae'r lleoliad yn cynnig sesiynau Dechrau'n Deg. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf ac mae'r lleoliad yn canolbwyntio ar y plentyn gyda phwyslais ar blant yn cyfeirio eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae plant yn ymgartrefu'n dda iawn ac yn hapus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymgysylltu â'r staff. Mae nifer o gyfleoedd ganddynt i ddysgu dod yn annibynnol a datblygu eu sgiliau trwy amrediad cyffrous o brofiadau a chwarae o ansawdd uchel. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â staff a phlant eraill, sydd yn gwneud iddynt deimlo'n saff a diogel.

Mae'r staff yn broffesiynol ac â chymwysterau addas ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ddiddorol ac yn ysgogol ac yn ysgogi dychymyg y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd a datblygiad y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan adolygu asesiadau risg a chwblhau gwiriadau dyddiol. Mae amrywiaeth ragorol o deganau, adnoddau a phrofiadau, dan do ac yn yr awyr agored, yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gref yn y lleoliad. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn brofiadol a gwybodus ym maes gofal plant. Maent yn cynnal polisïau, gweithdrefnau a chofnodion effeithiol. Maent yn gwrando ar blant, rhieni a staff, gan eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Maent yn dirprwyo cyfrifoldeb i staff dros feysydd penodol, yn ôl y sgiliau sydd ganddynt, sy'n galluogi'r staff i gyfrannu'n ystyrlon i'r lleoliad. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac maent yn mwynhau eu rolau yn fawr iawn.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth. Maent yn medru mynegi eu hoffterau yn aml ac mae'r staff yn ymateb mewn ffordd ystyrlon. Er enghraifft, am y rhan fwyaf o'r sesiwn maent yn arwain eu chwarae, gan benderfynu pa weithgareddau y maent am chwarae â hwy, ac maent yn rhydd i symud rhwng gweithgareddau. Mae’r plant yn cael eu hannog i fynegi eu hoffterau a'u barn ac yn derbyn cymorth i gymryd rhan a mynegi eu hunain. Yn ystod ymweliad oddi wrth Siôn Corn, roedd y plant yn gallu dewis p’un a oeddent am siarad ag ef ynteu beidio, ac roedd y staff yn parchu eu dewis. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da, gan ddangos bodlonrwydd gyda'r amrediad eang o adnoddau dysgu a chwarae sydd ar gael iddynt. Dewisodd un plentyn lyfr, gan fynd ag ef at aelod o staff, a eisteddodd i’w ddarllen gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn hapus a diogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ganddynt ymrwymiadau hoffter amlwg gyda'r staff, sy'n deall eu hanghenion unigol ac yn darparu gofal cyson. Gwrandewir ar y plant ac maent yn cael sgyrsiau gyda staff am eu diddordebau a'u syniadau. Maent yn hyderus i fynd at y staff am gysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Maent yn eistedd yn agos gyda'r staff, yn dewis straeon a chanu caneuon, ac yn cymryd rhan ac yn mwynhau'r gweithgareddau, sy'n ysgogol a chyffrous. Roeddent yn hoffi'r gweithgareddau crefft Nadolig a'r gweithgareddau chwarae anniben yn arbennig, gan wenu wrth ymuno â'r staff. Mae'r plant yn amlwg yn gyfarwydd â threfniadau arferol y gwasanaeth, gan gymryd rhan yn fodlon wrth dacluso a pharatoi am fyrbryd. Mae'r plant yn dechrau rhannu ac maent yn barod eu cymwynas. Maent yn awyddus i ddangos a siarad am eu gweithgareddau a rhannu gwybodaeth am eu teuluoedd a'u diddordebau.

Mae'r plant yn rhyngweithio yn dda iawn gyda chyfoedion a staff. Maent yn datblygu eu sgiliau cymdeithasu yn dda. Gwelsom fod yr holl blant yn defnyddio cwrteisi yn naturiol. Maent yn datblygu cyfeillgarwch ac roeddent yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd heb cael eu hannog i wneud hynny. Er enghraifft, mae plant sy’n chwarae yn yr ardal gartref yn rhannu adnoddau ac yn helpu ei gilydd i wneud bwyd.  Maent hefyd yn eistedd yn ddymunol gyda'i gilydd amser byrbryd, yn siarad â'i gilydd wrth fwyta. Gwelsom blant yn ffurfio cyfeillgarwch, yn chwarae gyda'i gilydd yn dda, ac yn meddwl am bobl eraill.

Mae'r plant yn mwynhau eu dysgu a'u chwarae yn fawr iawn. Mae ganddynt gyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau drwy chwarae a'r drefn ddyddiol. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn ymgysylltiedig iawn yn eu chwarae o ddewis. Mae'r plant yn cael eu hannog i fod yn chwilfrydig ac i ymchwilio i'r adnoddau y maent yn eu defnyddio. Roeddent yn chwilfrydig iawn am yr eira ffug ac anifeiliaid y gaeaf sy’n byw yn yr eira, gan ofyn cwestiynau i ehangu eu gwybodaeth ymhellach. Mae gweithgareddau chwarae anniben, gyda llawer o ddefnyddiau diddorol, yn rhoi'r cyfle i'r plant fod yn greadigol a chael hwyl.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau ar gyfer annibyniaeth sy'n briodol i’w hoedran a'u gallu. Mae'r plant yn dysgu sut i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled yn annibynnol, gan olchi a sychu eu dwylo

heb oruchwyliaeth oedolion. Mae papur tusw ar gael yn yr ystafell chwarae ac mae'r plant yn medru mynd ag un ac yn cael eu cynorthwyo i sychu eu trwynau eu hunain, gan roi'r papur tusw a ddefnyddiwyd yn y bin. Mae'r cotiau yn cael eu cadw mewn lle ac ar uchder cyfleus i blant estyn amdanynt a'u gwisgo i fynd allan. Mae gan blant amser i wisgo eu hunain ond mae'r staff gerllaw, yn cynnig cymorth os oes angen. Mae'r plant yn mwynhau ymdeimlad o gyflawni wrth gwblhau'r tasgau hyn. Mae bron pob un plentyn yn deall yr angen i gydymffurfio â'r rheolau ynghylch ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at eraill.

| Gofal a Datblygiad | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r staff yn dilyn polisïau'r lleoliad yn hyderus i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys polisi COVID-19 cadarn, yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Mae polisi diogelu clir ac mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar mewn diogelu. Mae'r staff yn hyderus iawn ynglŷn â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â phryderon amddiffyn plant, diogelu plant, a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion meddygol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes, gan ganfod eu bod wedi cael eu cwblhau'n llawn a bod archwiliad wedi cael ei gynnal yn rheolaidd i nodi a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. Mae'r staff yn deall yn dda y weithdrefn ar gyfer gadael yr adeilad os bydd tân, sy'n cael ei hymarfer yn rheolaidd. Mae'r staff yn paratoi byrbrydau ac yn goruchwylio'r plant wrth iddynt fwyta eu pecynnau cinio. Mae'r staff yn deall yn dda y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod plant yn cael bwyd yn ôl eu hanghenion.

Mae staff yn rheoli rhyngweithiadau yn effeithiol iawn. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar ac yn gyson yn eu dull, gan fod yn ystyrlon o hoedran a chamau datblygu'r plant wrth reoli materion sy'n ymwneud ag ymddygiad. Mae'r staff yn ddelfrydau ymddwyn da iawn, yn arddangos amynedd ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cyson a chadarnhaol fel yr amlinellir yn y polisi rheoli ymddygiad. Er enghraifft, roeddent yn defnyddio ymadroddion syml i atgoffa'r plant yn gyson, fel 'dwylo caredig' a 'traed sy'n cerdded'. Maent yn dawel ac yn gweithio'n deimladwy gyda plant i ddod o hyd i atebion i broblemau gyda'i gilydd. Mae'r amgylchedd yn gadarnhaol iawn, gyda chanmoliaeth aml yn cael ei chynnig pan fydd plant yn llwyddo wrth dasgau, fel gwrando ar gyfarwyddyd. Yn ystod amser byrbryd, mae'r staff yn addfwyn eu tôn wrth atgoffa'r plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' ac mae'r plant yn ymateb yn gyflym trwy ailadrodd y geiriau. Mae'r staff yn gwenu ac yn defnyddio tonau meddal gyda chysylltiad llygaid da i sicrhau bod plant yn deall beth maent yn ei ddweud.

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol ac yn ymdrechu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r staff yn uchel eu cymhelliant, â chymwysterau da, ac yn cyfathrebu'n gyson â'i gilydd. Maent yn ymwybodol o'u rolau unigol o ran dosbarthu gofal meithringar ac ymatebol. Mae anghenion personol plant yn cael sylw yn brydlon, ac maent yn cael eu trin â pharch ac yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion. Mae'r staff yn cwblhau arsylwadau manwl a rheolaidd ar ddatblygiad y plant ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau ac i gynllunio gweithgareddau cyffrous ac ysgogol. Maent yn sicrhau bod y gweithgareddau yn ysbrydoli plant i fod yn ddysgwyr chwilfrydig, ac mae defnyddiau naturiol a bywyd go iawn fel brigau a moch coed yn cael eu defnyddio i wneud gweithgareddau yn fwy diddorol a realistig i'r plant. Mae defnyddio'r ardal awyr agored bob dydd yn sicrhau bod plant yn cael awyr iach ac ymarfer corfforol. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu rhagor o gymorth ac anogaeth mewn modd sensitif os oes angen er mwyn i'r plant lwyddo yn y dasg o'u dewis. Mae nifer o adnoddau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliannau eraill. Mae'r staff yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn

rheolaidd i gyfarwyddo a chanmol y plant – er enghraifft, ‘da iawn’ ac ‘amser tacluso’. Mae'r Gymraeg yn cael ei hymgorffori yn y drefn ddyddiol, gan gynnwys amser cylch. Mae rhai plant yn dechrau ei defnyddio gyda hyder.

## Yr Amgylchedd Rhagorol

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a saff iawn. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau defnyddiol sydd yn darparu canllawiau clir i staff ynglŷn â materion iechyd a diogelwch. Mae asesiadau risg manwl ar waith ar gyfer holl ardaloedd yr amgylchedd ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a, ble bynnag y bo'n bosibl, gwaredu unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Ni chaniateir ymwelwyr dianghenraid oherwydd y pandemig COVID-19. Mae yna bolisi diogelwch ar waith ac mae mynediad i'r ystafell chwarae drwy ddrws gyda system bysellbad. Mae pwyllgor yn cynnal a chadw'r adeilad ac mae cytundebau ar waith gyda'r lleoliad i sicrhau eu bod nhw'n bodloni'r holl ofynion diogelwch. Mae'r tystysgrifau diogelwch yn gyfredol, gan gynnwys gwasanaeth blynyddol y boeler nwy. Mae asesiad risg COVID-19 ar waith, sy'n cael ei adolygu wrth i'r canllawiau newid ac y mae'r staff yn ei weithredu'n effeithiol i gadw pawb yn ddiogel yn ystod y pandemig.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod y cyfleusterau sydd wedi cael eu hadeiladu'n bwrpasol yn diwallu anghenion y plant i safon uchel. Mae'r ystafell chwarae yn groesawgar gyda llawer o waith crefft a phosteri'r plant yn addurno'r waliau, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r cyfleusterau toiled a newid cewynnau yn dda iawn ac yn hygyrch iawn i'r plant. Mae'r staff wedi trefnu'r ardal chwarae yn dda iawn, gydag anghenion y plant yn brif ystyriaeth yn y gwaith dylunio. Roeddent yn darparu ardaloedd chwarae diddorol, gyda'r amgylchedd y tu fewn a'r tu allan wedi'i sefydlu i gyd-fynd ag ethos egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae ardal wedi cael ei haddasu ar gyfer plant i fwyta ac mae'r cornel lyfrau yn cael ei defnyddio fel ardal dawel ar yr adegau prin pan fydd plentyn yn mynd i gysgu. Mae cypyrddau'r gegin ar hyd un wal, ble mae'r staff yn paratoi byrbrydau. Mae adnoddau da iawn ar gael yn yr ystafell chwarae ac mae ardal chwarae awyr agored o faint digonol, ble mae'r plant yn mynd o dan oruchwyliaeth y staff. Mae'r gweithgareddau yn cael eu trefnu'n dda, gyda chyfarpar ac adnoddau ar gael i'r plant eu defnyddio'n annibynnol gan fwyaf.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod digon o adnoddau rhagorol i ysgogi diddordeb a dychymyg y plant. Roedd adnoddau chwarae yn amrywiol ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r adnoddau'n rhwydd i'r plant fynd atynt gan eu bod yn weladwy ac yn cael eu storio ar eu lefel nhw. Newidir ardaloedd chwarae a dysgu yn rheolaidd i gynnal diddordeb y plant ac estyn eu sgiliau. Er enghraifft, roedd y siop yn 'Swyddfa Bost Pegwn y Gogledd' a'r ardal gartref yn 'dŷ Siôn Corn'. Mae'r ardaloedd yn cynnwys llawer o adnoddau ac yn realistig iawn. Mae gan yr ardaloedd y tu allan adnoddau helaeth a diddorol hefyd. Yn ddiweddar, mae cabanau darllen a phabell bren wedi cael eu prynu i ddarparu ardaloedd defnyddiol a diddorol i blant eu chwilota. Mae defnydd da yn cael ei wneud o'r amgylchedd naturiol. Mae gan y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad, ynghyd â'r staff, systemau da ar waith i fonitro addasrwydd ac ansawdd yr adnoddau, ac maent yn eu hadnewyddu'n rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn teimlo’n gryf dros ddarparu gofal sy’n canolbwyntio ar y plentyn ac mae’r ethos hwn yn cael ei gyfleu yn y datganiad o ddiben ac yn amlwg pan fyddwch yn siarad â'r rheolwr a'r staff. Mae'r polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Mae cofnodion dyddiol yn glir, wedi eu cwblhau yn llawn, ac wedi eu trefnu’n dda. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn ymwybodol iawn am flaenoriaethau a datblygiadau cenedlaethol mewn gofal plant.

Mae gan y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad systemau effeithiol ar waith i werthuso eu gwasanaeth. Maent yn cwblhau hunanwerthusiadau rheolaidd ac yn creu diwylliant o welliant parhaus.  Mae'r rheolwr yn gosod disgwyliadau uchel i'r staff a'i hunan. Mae system sicrhau ansawdd fewnol ar waith ac mae adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal, gyda chanlyniadau clir a chynllun gweithredu yn cael eu llunio. Mae'r lleoliad yn cael ei fonitro gan y gwasanaeth Dechrau'n Deg ac yn cymryd camau priodol os oes angen unrhyw welliannau. Mae polisi cwyno clir ac roedd trafodaethau gyda'r rheolwr yn dangos y byddai cwynion yn cael eu trin yn gadarnhaol ac y byddai unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn rheoli a defnyddio’r staff yn dda iawn. Mae gwiriadau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau eu swyddi. Mae proses dda ar gyfer goruchwylio ac arfarnu staff ac mae'r rheolwr yn cadw’r broses hon dan adolygiad i sicrhau ei bod yn effeithiol.  Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn uchel eu cymhelliant, ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r unigolion o fewn y tîm yn ategu ei gilydd ac yn cydweithio'n dda. Mae bron yr holl staff yn gymwysedig ac mae cofnodion yn dangos bod y gymhareb o blant i staff yn cael ei chynnal ar bob adeg, ac yn fwy aml yn well na'r gofyn. Mae diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu, cymorth cyntaf a diogelwch bwyd yn ogystal ag amrediad o ddysgu ychwanegol. Mae hyfforddiant arall yn  cynnwys y cwricwlwm addysg newydd yng Nghymru a'r Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd i Gymru.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn datblygu partneriaethau effeithiol â rhieni a llawer o asiantaethau perthnasol. Maent yn ceisio gwybodaeth fanwl gan rieni am anghenion a hoffterau eu plant pan fyddant yn cofrestru ac yn hysbysu rhieni’n dda am yr hyn sy’n digwydd yn y lleoliad trwy  gylchlythyrau manwl, e-byst a hysbysiadau sy’n cael eu harddangos yn y lleoliad, a thrwy ddiweddaru rhieni’n rheolaidd trwy gyfryngau cymdeithasol diogel. Mae cyfarfodydd unigol yn cael eu cynnal yn ddiogel i drafod cynnydd a datblygiad eu plentyn. Mae'r systemau hyn wedi cael eu hadolygu yn ystod y pandemig COVID-19. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn o'r lleoliad, gan gynnwys codi arian ar gyfer adnoddau ychwanegol. Mae partneriaethau cadarn â nifer o asiantaethau yn cefnogi’r lleoliad i ddarparu gwasanaeth rhagorol. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau i’w cynorthwyo

gyda materion busnes. Ar ben hynny, mae Dechrau'n Deg a'r Tîm Blynyddoedd Cynnar yn yr awdurdod lleol yn cynorthwyo’r cylch chwarae i weithredu lleoliad o ansawdd uchel ac i ofalu am blant sy’n cael asesiad ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar ofynion sylfaenol yn gyson, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hyrwyddo eu lles mewn modd gweithredol. |
| **Boddhaol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hyrwyddo lles ac i wella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae  enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar les y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 03/02/2022'